# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 22.10.2025 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR AM 7 o'r GLOCH.

**Presennol –** Cynghorwyr

Liz Daniel (Cadeirydd)
Hawys Tuff
Doug Jones
Dafydd Davies
Iwan Davies
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Sali Burns
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng MT, Cyng DJ

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 10.09.2025**
Y Cyng DD yn cynnig bod cofnodion y Cyfarfod yn gywri, y Cyng ID yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 10.09.2025**
**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
**Cylchfan Gaeathro –** Aros Cyngor Gwynedd. Gwaith i fod i gychwyn mis Tachwedd.
**Hysbysfwrdd** - Clerc i archebu. Aros logo i'w osod ar yr Hysbysfwrdd.
**Daffodils –** Clerc i archebu.
**Offer monitro traffic –** wedi ei osod ar dop yr allt (Ben Cefn) yn dilyn damweiniau yna yn ddiweddar. Cyng SB wedi anfon e-bost i Cyngor Gwynedd.

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** – Aros adroddiad Cambrian Ecology ac wedyn adrodd yn nol i Cyngor Gwynedd.
**Baw Ci** - Problem baw ci yn parhau.
**Gwefan** – Wedi ei diweddaru
**Tyllau yn y ffordd -** Wedi ail wynebu y ffordd o Groeslon, Waunfawr lawr heibio Antur Waunfawr. Aros i'r gweddill gael eu gwneud.
**Arwydd Stad Bod Hyfryd –** Aros Cyngor Gwynedd
**Hysbysfwrdd** - Clerc i archebu. Aros logo i'w osod ar yr Hysbysfwrdd.

**Gor-yrru** – Y broblem yn parhau yn y pentref. Clerc wedi rhannu e-bost a dderbyniwyd yn ddiweddar yn nodi bod nifer o ddamweiniau wedi gostwng yn y ddwy flynedd diwethaf yn dilyn y rheol newydd o 20mya mewn ardaloedd yng Nghymru.
**Potiau Blodau** – Cyng SB yn mynd i gysylltu hefo'r Antur.
**Daffodils** – Clerc i archebu ar gyfer pentref Waunfawr hefyd.
**Lon Garreg Fawr** – Coed angen eu torri ar hyd y ffordd, loriau yn gwrthod mynd ar ei hyd oherwydd bod y coed wedi tyfu drosodd, angen gwybodaeth ynglyn a pherchnogaeth y tir. Cyng DD yn trafod.
**Gwasanaeth Sul y Cofio** – Cyng DJ wedi trefnu i'r dorch pabis gael ei danfon i'r ysgol, bydd gwasanaeth ger y Cof Golofn ar y 11/11/25 am 11 o'r gloch. Diolch i'r ysgol am drefn eto eleni.
**Coeden Nadolig** – Bydd y goeden nadolig yn cael ei gosod eto eleni, a gobeithio y caiff lonydd.

**Grant Gwynedd Ni –** Logo Cyngor Cymuned Waunfawr – Delwedd – ar y gweill. Hysbysfwrdd x 2 – Lliw glas, Clerc i'w archebu unwaith y bydd wedi derbyn y logo ar gyfer Waunfawr a Chaeathro. Gwefan – Delwedd yn arwain. Ffenestri newydd i'r Ganolfan Fach – Aros y contractwyr ddod i fesur er mwyn archebu y ffenestri.

6. **Sedd Wag –** Aros enwebiadau yng Nhaeathro os yn bosibl.

7. **Gerddi Bach –** Aros MacVenture hefo pris i wneud y gwaith cynnal a chadw ac hefyd am y swing Aros YCG i dynnu'r ffens i lawr. Cyng SB yn mynd i holi Saer am bris hefyd i wneud y gwaith Cynnal a Chadw.

8. **Adroddiadau**
   - **a. Lloches Bws** –Enwau y safleoedd bws dal heb eu newid gan Cyngor Gwynedd. Clerc angen trefnu i TB gael y paent i beintio y safle.
   - **b. Y Fynwent** – Dim
   - **c. Llwybrau –** Cyng SB i gyfarfod hefo aelod o Partneriaeth Natur Gwynedd wythnos nesaf i drafod grantiau. Clerc i anfon rhifau y llwybrau mae'r Cyngor Cymuned yn eu torri i'r Cyng SB cyn y cyfarfod.
   - **ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** – Yn fyw ac yn cydweithio hefo 100 Green. Poster wedi ei rannu gyda'r aelodau. Digon o bwer hydro lleol ar hyn o bryd i hyd at 40 eiddo, edrych ar safleoedd eraill yn y dalgylch er mwyn gallu cynyddu. Hyd yma 9 eiddo lleol wedi troslgwyddo. Safle we www.gwyrfaigwyrdd.cymru
   - **d. Gwaith atal llifogydd Waunfawr –** Gwaith llifogydd yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd yn ardal Croes y Waun. Mynegwyd gan rai Cynghorwyr eu bod yn bryderus bod y llwybr troed wedi ei gau a bod plant a phobl yn defnyddio y llwybr troed yma i gerdded i'r ysgol a nol a mlaen i'r pentref. Cyng EG wedi cysylltu hefo YGC a mae cyfarfodydd wedi eu trefnu i ymchwilio. Mynegwyd gan y Cyng ID bod y llifogydd lawr lon yr ysgol wedi gwella yn dilyn agor ffosydd yn y tir ger y ffordd, diolch i'r tirfeddiannwr.

9. **Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## 10. Gohebiaeth

Ysgol Brynrefail – Ethol Cynrychiolydd Rhieni ar Gorff Llywodraethwyr
RBL – Torch Pabi 2025
Unllais
Theatr Bara Caws – Taith Fach y Hydref
Cyngor Gwynedd – Cae Amldydwydd, Waunfawr
Cyngor Gwynedd – Cynllunio
Cronfa Croeso Cymru – Cronfeydd
Cyngor Gwynedd – Gorchymyn Cyngor Gwynedd
Cwmpas – Grant Prosiect Perthyn Project Grant
Partneriaeth Natur Lleol – Datblygu prosiect Llwybrau Cyhoeddus yn Waunfawr
Eco'r Wyddfa
Cyngor Gwynedd – Dwr Cymru safle Hen Doilet, Waunfawr
Trwyddedu – Ymgynghoriad Cais Trwyddedu Eiddo Newydd
Delwedd – Safel We a Logo Cyngor Cymuned Waunfawr
Cambrian Ecology – anfoneb am yr adroddiad
Cyngor Gwynedd – Proseict Adfywio Trefi (Gwynedd Ni)
Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro – Torri Gwair Caeathro 2025/25

## 11. Mantolen 6 mis 2025/26

Cynnigwyd fod y mantolen am 6 mis cyntaf 2025/26 yn gywir gan y Cyng ID ac eilwyd gan y Cyng DD.

Mae angen trafod budget a chynlluniau y Cyngor ar gyfer y dyfodol er mwyn cynllunio a'r gyfer y preasept yn mis Ionawr.

## 12. Materion Ariannol

### 12.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Revenue & Customs |
| £192.10 | Cambrian Ecology Ltd |
| £18.00 | Torch Pabi |
| £600.00 | Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro |

### 12.2 Arian a dderbyniwyd

| | |
|---|---|
| £590.00 | Ffioedd Claddu |

### 12.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Revenue & Customs |
| £360.00 | Delwedd Ltd |

### 12.4 Ffioedd Banc

| | |
|---|---|
| £4.00 | Awst-Medi |

### 12.5 TAW

Clerc wedi cysylltu hefo Aelod o A Hughes Jones, Dyson & Co ac wedi anfon copi o'r

anfonebau TAW iddynt.  Aros ymateb.

**13. Grant /Rhoddion**

| | |
|---|---|
| £200.00 | Clwb Bowlio, Waunfawr |
| £500.00 | Clwb Rygbi, Caernarfon |
| £100.00 | Theatr Bara Caws |
| £2,000 | Cylch Meithrin Waunfawr |

Cyng EO wedi derbyn cais gan Ysgol Gynradd Waunfawr am rodd tuag at y gwaith ffensio a gosod giat sydd wedi ei wneud yn ddiweddar er mwyn diogelu plant yr ysgol.  Cyng EO i rannu copi o'r anfoneb am y gwaith gyda aelodau cyn cytuno ar swm y rhodd.  Cytuno mewn egwyddor i roid cyfraniad ond aros mwy o wybodaeth.

**14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 03.12.2025, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

**13. Materion  Aelodau. -**

| | |
|---|---|
| Cyng EO – | Canlyniad y cais Grant Gwynedd Ni |
| Cyng SB - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng ID - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng LD - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng MT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DD- | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng EG- | Chwyn ar hyd y palmentydd a gwteri angen eu llnau yn y pentref. |